GORCHYMYN PRYNU GORFODOL PROSIECT ATGYFNERTHU AC ADNEWYDDU NATIONAL GRID ELECTRICITY TRANSMISSION PLC (PENTIR I DRAWSFYNYDD) 2026.

Deddf Trydan 1989

Deddf Caffael Tir 1981

Pryniant Tir Gorfodol a Hawliau Newydd

1. Hysbysir drwy hyn bod National Grid Electricity Transmission plc wedi gwneud Gorchymyn Prynu Gorfodol 2026 National Grid Electricity Transmission plc (Prosiect Atgyfnerthu ac Adnewyddu Pentir i Drawsfynydd) o dan Adran 10 a pharagraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Trydan 1989 ("Deddf 1989"). Mae ar fin cyflwyno'r gorchymyn hwn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net i'w gadarnhau, ac os caiff ei gadarnhau, bydd y gorchymyn yn awdurdodi National Grid Electricity Transmission plc i brynu'r tir yn orfodol a'r hawliau newydd a ddisgrifir isod er mwyn cyflawni'r gweithgareddau a awdurdodir gan ei drwydded trawsyrru o dan Ddeddf 1989 ac yn fwy penodol ar gyfer Prosiect Atgyfnerthu ac Adnewyddu Pentir i Drawsfynydd ("y Prosiect").

2. Mae'r Prosiect yn cynnwys ailosod ac atgyfnerthu ceblau a llinellau uwchben sydd eisoes yn bodoli a gosod ceblau a llinellau uwchben newydd rhwng is-orsafoedd presennol Pentir a Thrawsfynydd ac is-orsaf newydd ym Mryncir yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae'r Prosiect tua 45 km o hyd ac mae'n cynnwys y gwaith canlynol:

    a. Is-orsaf Pentir – newid a gosod ceblau tanddaearol a gwaith ategol;

    b. Bryncir - is-orsaf newydd gyda ffordd fynediad, tirlunio, ail-leoli tŵr, cysylltiad ffeibr, a chysylltiad llinell uwchben/danddaearol 132 kV newydd a thynnu rhan o linell uwchben nad yw'n cael ei defnyddio mwyach;

    c. Ceblau Glaslyn – ymestyn ac adeiladu compowndiau selio pennau ceblau, llwybrau mynediad parhaol newydd, cael gwared ar gompownd presennol Garth, gosod dwy gylched ceblau 400 kV newydd yn lle'r ceblau 400 kV a 132 kV presennol (i'w datgomisiynu, eu gwneud yn ddiogel ac, eu cadw'n rhannol), cysylltiad â thŷ pen twnnel presennol Darpariaeth Effaith Weledol Eryri ac addasiadau i hynny, a gwaith tirweddu a lliniaru ecolegol cysylltiedig;

    d. Is-orsaf Trawsfynydd – ceblau tanddaearol newydd, selio pennau ceblau, adweithydd siynt, nenbont, a lledu'r ffordd fynediad yn y compownd presennol sydd wedi'i ffensio;

    e. Gwaith Llinell Uwchben - ail-ddargludo, gosod ffitiadau newydd, a newid gwifrau daear am wifren ddaear optegol ar y llinell drydan uwchben 4ZC rhwng tyrau 4ZC005–4ZC027 a thyrrau 4ZC044–4ZC070, ynghyd â gosod ceblau ffeibr optig rhwng tyrau 4ZC070–4ZC140;

    f. Lliniaru Llifogydd Dros Dro – dwy orsaf bwmpio dros dro a gwaith cysylltiedig i reoli llifogydd i drosbwmpio dŵr llifogydd o'r Cyt ac Afon Glaslyn i Lyn Bach yn ystod y gwaith gosod ceblau;

    ynghyd â ffyrdd mynediad newydd a gwell, compowndiau adeiladu dros dro, dargyfeirio llwybrau troed, gwaith tirweddu, lliniaru ecolegol a rheoli amgylcheddol, tir lliniaru, a chyfarpar, gwaith a seilwaith cysylltiedig i hwyluso'r gwaith o drosglwyddo trydan o fewn y rhwydwaith ac ar ei draws.

Hysbysiad Papur Newydd

3. Mae copi o'r gorchymyn ac o'r mapiau y cyfeirir atynt ynddo wedi'u hadneuo yn:

Lleoliad Adneuo	**Cyfeiriad Lleoliad Adneuo**	**Oriau Agor**
Llyfrgell Porthmadog	Stryd Y Llan, Porthmadog, LL49 9HX	10am – 6.30pm dydd Llun; 10am – 6pm dydd Mawrth a dydd Mercher; 10am – 1pm, ac 1pm – 6pm (hunanwasanaeth yn unig) dydd Iau, a 10am – 5pm, a 5pm – 6pm (hunanwasanaeth yn unig) dydd Gwener
Llyfrgell Cricieth	Encil y Coed, Stryd Fawr, Cricieth, LL52 0RN	9.30am – 12pm ac 1pm – 4pm (dydd Mercher a dydd Iau); 2pm – 5pm (dydd Gwener)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LF	9am – 5pm (rhwng dydd Llun a dydd Iau) a 9am – 4:30pm (dydd Gwener)

a gellir eu gweld ar bob adeg resymol.

4. Gellir gweld copi o'r gorchymyn a mapiau'r gorchymyn a'r Datganiad o Resymau ar-lein yn: *https://www.nationalgrid.com/electricity-transmission/network-and-infrastructure/infrastructure-projects/pentir-trawsfyndd-reinforcement-project/microsite-links/pentir-trawsfyndd-reinforcement-project-welsh*

   neu drwy sganio'r cod QR uchod.

5. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r gorchymyn yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net: Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net, Tîm Cyflawni Cynllunio Seilwaith Ynni, 3-8 Whitehall Place, Llundain, SW1A 2AW a/neu drwy anfon e-bost at: *compulsorypurchaseorders@energysecurity.gov.uk* cyn **Dydd Mercher 2 Rhagfyr 2026** a dylai nodi teitl y gorchymyn, sail y gwrthwynebiad, cyfeiriad y gwrthwynebydd a'i fuddiannau yn y tir.

DISGRIFIAD O'R TIR A'R HAWLIAU NEWYDD

Y tir sydd i'w gaffael:

Bryncir, Gwynedd: tir amaethyddol, prysgdir, gwrychoedd, priffordd a llain ymyl ffordd mabwysiedig, rhannau o wely Afon Dwyfach a'i glannau, llinellau trydan uwchben a hawl tramwy cyhoeddus. Mae'r tir i'r de o'r A487 ac i'r dwyrain o Felin Llecheiddior. Gellir disgrifio'r tir hefyd fel tir wrth ymyl tyrau trydan 4ZC067 a 4ZC068, a'r B4411/Ffordd Caernarfon.

Penmorfa, Gwynedd: Compownd Selio Pennau Ceblau trydan, tŵr 4ZC044, llinellau trydan uwchben, trac mynediad, tir amaethyddol, coetir a phrysgdir. Mae'r tir i'r gogledd-ddwyrain o Fryn-y-wern ac i'r de o Eglwys Sant Beuno.

Minffordd, Gwynedd: llawr caled, tir gweithredol ac anweithredol, glaswelltir, cyrsiau dŵr, coetir a gwrychoedd yn Swyddfa Safle Darpariaeth Effaith Weledol Eryri HOCHTIEF a Chompownd Selio Pennau Ceblau Garth, ger Lôn y Chwarel a Rhes Syenite, Minffordd. Mae rhannau wedi'u dynodi yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Yn gyffredin i bob llain - Mae'r tir yn cynnwys mwyngloddiau a mwynau lle disgrifir hynny yn yr Atodlen. Ni ddylid caffael unrhyw fuddiannau a eithrir fel y'u nodir yn y Gorchymyn a'r Atodlen.

Yr Hawliau canlynol:

Hawliau er mwyn atgyfnerthu ac adnewyddu'r llinell drydan uwchben bresennol rhwng Is-orsaf Pentir y National Grid ac Is-orsaf Trawsfynydd, Gwynedd, gan gynnwys gosod seilwaith ceblau newydd, tynnu'r llinell uwchben bresennol ym Mryncir, a datgomisiynu, tynnu, gwneud yn ddiogel a chadw seilwaith cebl presennol rhwng Penmorfa a Minffordd, ynghyd â mynediad cysylltiedig, ardal waith, compownd adeiladu, draenio, lliniaru llifogydd, a gwaith tirweddu a lliniaru ecolegol.

Disgrifir yr hawliau hyn yn fwy manwl yn y Gorchymyn a'r Atodlen ac fe'u labelir fel a ganlyn: "Hawliau Llinellau Uwchben", "Hawliau Mynediad", "Hawliau Ardal Waith", "Hawliau Seilwaith Ceblau", "Hawliau Datgomisiynu Seilwaith Ceblau", "Hawliau Tirweddu a Lliniaru Ecolegol", "Hawliau Lliniaru Llifogydd", "Hawliau Draenio" a "Hawliau Compownd Adeiladu".


Mae'r tir y ceisir yr hawliau newydd ar ei gyfer yn cynnwys tir amaethyddol, coetir, prysgdir, gwrychoedd, ymylon ffyrdd, traciau mynediad, arwyneb caled, seilwaith trydan gweithredol, waliau cerrig, ffosydd, priffyrdd cyhoeddus a fabwysiadwyd, hawliau tramwy cyhoeddus, gwelyau afonydd a glannau afonydd, aber Afon Glaslyn, gwely a glannau Llyn Tecwyn Uchaf, tir rheilffordd, man agored cyhoeddus, caeau chwarae a thir comin, y mae rhannau ohonynt wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Mae'r tir yn mynd o is-orsaf Pentir i gyfeiriad y de-orllewin yn gyffredinol, gan groesi Afon Rhythallt a'r A4086 ger Cwm-y-glo, gan fynd heibio Ceunant a chroesi'r A4085, Afon Gwyrfai a Rheilffordd Treftadaeth Ucheldir Cymru ger Waunfawr. Mae'r llwybr wedyn yn mynd heibio Rhostryfan a Rhosgadfan, gan groesi Afon Llifon ger Carmel, y B4418 ac Afon Llyfni ym Mhen-y-groes, ac yn mynd tua'r de drwy Lanllyfni, gan groesi Afon Crychddwr, a Nasareth ac ar hyd yr A487 ger Pant Glas, gan groesi'r rheilffordd segur (Lôn Eifion) ac Afon Dwyfach, i Fryncir, lle mae'n croesi'r B4411. O Fryncir, mae'r llwybr yn croesi Afon Dwyfor ger Dolbenmaen ac yn mynd yn ei flaen ger Gell, Pentrefelin a Phenmorfa i Borthmadog, lle mae'r hawliau'n ymestyn ar y naill ochr a'r llall i Ffordd Osgoi Porthmadog (yr A487), ar draws Y Cyt, Rheilffordd Ucheldir Cymru ac aber Afon Glaslyn, i Gompownd Ceblau Garth ym Minffordd, i'r gogledd o Reilffordd Ffestiniog. Yna aiff y llwybr yn ei flaen i'r dwyrain heibio Llyn Tecwyn Uchaf ger Maentwrog, gan groesi'r A496, a thrwy Fryn Bwbach cyn cyrraedd Is-orsaf Trawsfynydd, i'r gorllewin o'r A470 ger Gellilydan, Blaenau Ffestiniog.

Yn gyffredin i bob llain: Mae'r hawliau newydd yn cynnwys, pan fyddan nhw wedi'u disgrifio felly yn yr Atodlen, hawliau i atal gwaith mwyngloddiau a mwynau, ymyrryd â gwaith o'r fath neu gyfyngu arno. Ni fydd yr hawliau newydd yn effeithio ar unrhyw fuddiannau a eithrir fel y'u nodir yn y Gorchymyn a'r Atodlen.

Dyddiad 21 Hydref 2026

Llofnod:



John Lamb

Cyfarwyddwr y Prosiect

National Grid Electricity Transmission plc